# Lleihau risg lledaenu haint trwy lanhau, diheintio a storio cyfarpar gofal

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau, diheintio a storio cyfarpar gofal anfewnwthiol amldro, fel mater o drefn, i leihau risg lledaenu haint. Dylai pob aelod staff mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol dderbyn hyfforddiant ar lanhau, gyda neu heb ddiheintio'r cyfarpar gofal a ddefnyddiant, ond dylai fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am hyn o fewn pob maes neu leoliad gofal.

Glanhau a diheintio yw'r termau a ddefnyddir yn y safon hon, ond mewn rhai ardaloedd, defnyddir y term 'dihalogi'. Mae 'dihalogi' yn derm ymbarél sy'n cynnwys glanhau, diheintio a sterileiddio, fel y bo'n briodol.

Mae'r safon hon yn ymwneud â gweithgarwch ym mhob amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a chartref, a cherbydau/gorsafoedd ambiwlans, ond mae'n eithrio lleoliadau arbenigol, fel labordai, fferyllfeydd neu theatrau llawdriniaeth, lle y gall fod angen dulliau mwy arbenigol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. cyflawni hylendid effeithiol y dwylo cyn ac ar ôl cwblhau'r gweithgaredd, yn unol â pholisi/gweithdrefnau'r sefydliad
6. archwilio'r cyfarpar gofal cyn ei ddefnyddio a sicrhau ei fod yn lân
7. asesu pa lanhau, gyda neu heb ddiheintio, y mae ei angen a dewis y cyfrwng a'r cyfarpar priodol
8. casglu'r cyfrwng a'r cyfarpar glanhau, a'r cyfrwng a'r cyfarpar diheintio os bydd eu hangen, a gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol cyn dechrau
9. glanhau'r cyfarpar gofal yn ôl y math o gyfarpar, cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr a gweithdrefnau'r sefydliad
10. defnyddio diheintydd yn ddiogel pan fydd ei angen fel rhan o'r broses lanhau
11. asesu cyflwr y cyfarpar gofal wrth ei lanhau, a mynd ag unrhyw gyfarpar nad yw'n addas i'w ddefnyddio oddi yno, yn unol â pholisi'r sefydliad
12. rhoi gwybod am unrhyw eitem sydd wedi'i difrodi, a chael eitem yn ei lle
13. sicrhau bod cyfarpar gofal yn cael ei storio mewn lle glân, dynodedig, yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr a gweithdrefnau'r sefydliad
14. cael gwared ar gyfarpar a chyfarpar diogelu personol untro yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
15. dychwelyd cyfryngau glanhau a diheintio i'w storio'n ddiogel, gan ddilyn rheoliadau ac arweiniad ynghylch sylweddau peryglus, arweiniad iechyd a diogelwch, a chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr
16. sicrhau bod eich cyfarpar glanhau a diheintio yn lân, yn addas at ei ddiben, bod y codau lliw priodol arno, ei fod mewn cyflwr da, a'i fod yn cael ei storio mewn man dynodedig, glân
17. cael gwared ar gyfarpar tafladwy yn unol â pholisi'r sefydliad
18. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. sut i gael at gyfleusterau ar gyfer hylendid y dwylo
8. technegau effeithiol ar gyfer cynnal hylendid y dwylo
9. y cyfarpar diogelu personol priodol i'w ddefnyddio wrth lanhau cyfarpar
10. sut i wisgo, tynnu a chael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn ddiogel
11. pwy sy'n gyfrifol am lanhau cyfarpar
12. pryd dylid defnyddio diheintydd fel rhan o'r broses lanhau
13. yr amserlenni glanhau ar gyfer glanhau dwfn ac arferol sy'n cynnwys glanhau neu gael gwared ar lieiniau a nwyddau glanhau amldro eraill ar ôl eu defnyddio, fel y bo'n briodol
14. defnydd nwyddau glanhau a diheintio, eu gwanediad, dulliau eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu
15. sut i wahaniaethu rhwng cyfarpar a/neu gyfarpar diogelu personol untro ac amldro, a sut i gael gwared arnynt, eu golchi, eu glanhau, eu diheintio a'u storio yn ddiogel
16. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHIPC4

Lleihau risg lledaenu haint trwy lanhau, diheintio a storio cyfarpar gofal

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHIPC4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr iechyd proffesiynol, Swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â Iechyd, Iechyd, Gofal a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Cyfres/Set** | Atal a rheoli heintiau |
| **Geiriau Allweddol** | Glanhau, diheintio, risg, haint, atal, gofal, cyfarpar |